DLG 02

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft/ Local Government Draft (Wales) Bill

Ymateb gan: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Response From: Older People’s Commissioner for Wales

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Ionawr 2016

Annwyl Christine,

**Ynghylch: Bil Drafft Llywodraeth Leol**

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno sylwadau fel rhan o'ch gwaith craffu cyn y broses ddeddfu ar fersiwn ddrafft o Fil Llywodraeth Leol.

Rwyf wedi amgáu copi o'r llythyr rwyf wedi'i anfon at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n nodi fy marn a'r hyn rwyf yn ei feddwl o'r Bil drafft fel y mae.

Blaenoriaeth gyntaf fy Fframwaith Gweithredu 2013-17[1] yw ymwreiddio lles pobl hŷn wrth galon gwasanaethau cyhoeddus; credaf fod gennym gyfle gyda'r diwygiadau arfaethedig i lywodraeth leol i sicrhau'r canlyniad pwysig hwn ar gyfer pobl hŷn.

Mae gennyf dair blaenoriaeth y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt fel rhan o'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon:

- sicrhau ymrwymiad na fydd ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i bobl hŷn yn dirywio yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol;
- galluogi lleisiau pobl hŷn i gael eu clywed gan eu Hawdurdodau Lleol, drwy ymgynghori effeithiol a chynghorau cymuned cryf: a
- sicrhau bod cynrychiolwyr lleol yn adlewyrchu eu hetholwyr yn well drwy annog menywod hŷn a phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig i ymwneud ag Awdurdodau Lleol a sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiad.

[1] http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Fframwaith_Gweithredu.sflb.ashx

Rwy’n gobeithio y bydd fy sylwadau o fudd i’ch pwyllgor wrth i chi ystyried y Bil drafft. Os oes gennych chi ragor o gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â’m swyddfa.

Yn gywir,



Sarah Rochira
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
☎ 029 2044 5030
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

21 Ionawr 2016

Annwyl Weinidog,

**Ynghylch: Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru)**

Yn fy ymatebion blaenorol i'ch ymgynghoriadau ar ddiwygio llywodraeth leol, cyfeiriais at dri maes o bwysigrwydd mawr i bobl hŷn:

- ymrwymiad na fydd ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i bobl hyn yn dirywio yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol;
- galluogi lleisiau pobl hŷn i gael eu clywed gan eu Hawdurdodau Lleol, drwy ymgynghori effeithiol a chynghorau cymuned cryf: a
- sicrhau bod cynrychiolwyr lleol yn adlewyrchu eu hetholwyr yn well drwy annog menywod hŷn a phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig i ymwneud ag Awdurdodau Lleol a sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiad.

Yn fy ymateb i'r 'Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', dywedais yn glir bod yn rhaid i unrhyw ddiwygio llywodraeth leol ganolbwyntio ar ansawdd y gwasanaethau i'r defnyddiwr, gan gynnwys pobl hŷn[2]. Pobl hŷn yw un o'r grwpiau mwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol ac mae llawer yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn er mwyn byw bywydau iach ac annibynnol. Mae'n hanfodol bod llywodraeth leol yn y dyfodol yn rhoi sylw i brif ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar

[2] http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Consultation_Responses_150422/150427_-_Devolution_Democracy_and_Delivery_-_Reforming_Local_Government_Power_to_Local_People_Cym.sflb.ashx

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

‘Helpu Pobl Hŷn i Fyw’n Annibynnol: A yw Cynghorau’n Gwneud Digon?’[3], ac yn cyd-fynd â'r prif sbardunau deddfwriaethol fel Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) i ddatblygu dull gweithredu sy’n atal ac sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau a chydnabod pobl hŷn fel asedau economaidd a chymdeithasol.

Yr hyn sy’n glir i mi yw bod yn rhaid i’r modd y mae gwasanaethau cymunedol yn cael eu darparu fod yn hyblyg. Gyda chyllidebau mor dynn, rhaid grymuso a chefnogi pobl leol a sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau lleol. Nid oes wahaniaeth pa un ai’r Awdurdod Lleol neu rywun arall sy’n gyfrifol am eu rhedeg, yr hyn sy’n bwysig yw bod y gwasanaethau yno i'r bobl sydd eu hangen, yn enwedig pobl hŷn. Mae pobl hŷn yn ystyried bod gwasanaethau cymunedol, fel toiledau, llyfrgelloedd, canolfannau dydd/cymunedol a bysiau cyhoeddus, yn wasanaethau hollbwysig a’u bod yn hanfodol iddynt o ran eu hiechyd, eu hannibyniaeth a’u lles.

Mae Rhan 3, Pennod 2 y Bil drafft yn gosod dyletswydd ar lywodraeth leol i ymgynghori â “phobl leol” ar y penderfyniadau a wnânt. Er fy mod yn croesawu’r ddyletswydd hon, hoffwn weld rhagor o fanylion ynghylch sut yr ymgynghorir â phobl hŷn yn benodol. Mae’r Bil drafft hefyd yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar yr ymgynghoriad hwn. Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddais ganllawiau arfer gorau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn ynghylch newidiadau i wasanaethau cymunedol[4] a byddwn yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chi a’ch cydweithwyr ar ddatblygu canllawiau trylwyr i helpu llywodraeth leol i ymgysylltu’n effeithiol â phobl hŷn.

Mae dyletswydd eisoes wedi'i gosod ar Awdurdodau Lleol, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, i ymgynghori â'r bobl hynny sydd â nodweddion gwarchodedig yn ôl y diffiniad yn y Ddeddf. Byddaf yn cyhoeddi canllawiau cyn bo hir ar Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu defnyddio i fodloni eu dyletswyddau yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Hoffwn weld y casgliadau

---

[3] http://www.audit.wales/system/files/publications/Independence-Older-People-2015-Welsh.pdf
[4] http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/14-07-01/Best_Practice_Guidance_for_Engagement_and_Consultation_with_Older_People_on_Changes_to_Community_Services_in_Wales.aspx#.Vp-sdK3cuXh


o’r canllawiau hyn yn rhan o’r canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 41 y Bil drafft.

Rwy’n croesawu’r darpariaethau yn Rhan 6 y Bil drafft, sy’n ymwneud â hyfforddiant a threfniadau cyngor cymuned. Gan fod yr Awdurdodau Lleol yn debygol o gynyddu mewn maint, gall cynghorau cymuned fod yn fforwm hanfodol i bobl hŷn fynegi eu barn. Yn aml iawn mae llawer o aelodau hŷn ar gynghorau tref a chymuned a dylid eu defnyddio i ddarparu adborth gan bobl leol am benderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod Lleol. Cynghorau cymuned yw’r ffurf agosaf o ddemocratiaeth i bobl leol ac mae cymunedau yn gweld gwerth iddynt. Mae ymgysylltu’n effeithiol â nhw yn rhoi mwy o foddhad.

Yn ogystal ag ymgysylltu’n effeithiol ag aelodau eu cymunedau, rhaid sicrhau bod cynrychiolwyr llywodraeth leol yn adlewyrchu'r amrywiaeth sydd yn eu cymunedau’n well. Dylai’r Bil a deddfwriaeth ddilynol osod dyletswydd ar Arweinwyr Cynghorau, Arweinwyr Grwpiau a Phrif Weithredwyr i sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei pharchu. Dylid annog menywod hŷn a phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig i gynnig eu hunain i fod yn ymgeiswyr mewn etholiadau lleol a dylent fod yn chwarae fwy o rôl yn y gwaith o arwain Awdurdodau Lleol. Mae’n destun pryder mawr i ni mai dim ond un o bob pum aelod cabinet ledled Cymru sy’n fenyw, a dim ond un o’r 22 Awdurdod Lleol sy’n cael ei arwain gan fenyw. Rhaid mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn i sicrhau bod aelodaeth Awdurdodau Lleol a’u cabinet yn adlewyrchu'r amrywiaeth o bobl maent yn eu cynrychioli.

Edrychaf ymlaen at gydweithio mwy â chi ar y ffordd orau ymlaen i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel eu bod wir yn darparu ar gyfer pobl hŷn.

Yn gywir,



Sarah Rochira
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

CC: Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru